# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**DYDD IAU, 24AIN AWST, 2017**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, L.R. Bowen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, A.C. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, G.B. Thomas a J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd A. James, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio E/33696.

Y Cynghorydd G. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr J. Edwards | - | Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig |
| Mr R. Jones | - | Swyddog Rheoli Datblygu (y Gorllewin) |
| Mr R. Davies | - | Swyddog Rheoli Datblygu (y De) |
| Mr K. Phillips | - | Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain) |
| Mr T. Boothroyd | - | Swyddog Rheoli Datblygu (y De) |
| Mr S. Murphy | - | Uwch Gyfreithiwr |
| Mr K. James | - | Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio) |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 11.35 a.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Jones, H.I. Jones a B.A.L. Roberts.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J.D. James | 4.1 – Cais cynllunio S/34402 – dymchwel hen Ysgol Copperworks a datblygu hyd at 9 o gartrefi newydd ar safle hen Ysgol Babanod Copperworks, ar dir yn Nheras Morlan, Porth Tywyn, SA16 0ND. | Ef yw noddwr Band Tref Porth Tywyn. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/35527** | **Garej ar wahân, 1 Heol y Bryn, Pen-y-groes, Llanelli, SA14 7PW**<br><br>[SYLWER: Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith fod anghysondeb yn y cynlluniau ar gyfer y cais hwn ac eglurwyd bod y cyfeiriad at y dwyrain a'r gorllewin yn anghywir a dylid ei wrthdroi. |

**3.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **E/33695** | **Cais cynllunio llawn i godi uned ddofednod ar fferm er mwyn cadw ieir maes (i gynhyrchu wyau) ynghyd â biniau bwydydd cysylltiedig, mynediad mewnol o'r fferm a gwaith cysylltiedig yng Ngodre Garreg, Llangadog, SA19 9DA.**<br><br>Roedd sylw wedi dod i law yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle.<br><br>**Y RHESWM: Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weld y trefniadau mynediad yn sgil pryderon am ddiogelwch priffyrdd.**<br><br>Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio, roedd y gwrthwynebydd a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch y cais hwn wedi dewis rhoi ei sylwadau yn ystod cyfarfod heddiw yn hytrach na'r cyfarfod ar ôl yr ymweliad â'r safle. Aeth y Pwyllgor felly ymlaen i gael y sylwadau yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, a oedd yn ail-bwysleisio rhai o'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br><br>• mae problemau traffig yn gysylltiedig â safle'r cais gan fod rhan ohono yn dir comin dan berchnogaeth breifat;<br>• nid yw'r rhwydwaith o ffyrdd yn addas ar gyfer traffig trwm;<br>• mae'n agos at sawl eiddo preswyl, rhai mor agos â 37m;<br>• niwsans sŵn o'r ffaniau a fydd yn cael eu defnyddio'n ddi-baid yn ystod tywydd poeth;<br>• bydd llygredd yn yr awyr a halogiad o ran arogl;<br>• bydd yn rhaid cynyddu rheoli plâu yn yr ardal;<br>• effaith niweidiol ar Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi.<br><br>Ymatebodd asiant yr ymgeiswyr i'r materion a godwyd. |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**4.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/34402** | **Dymchwel hen Ysgol Copperworks a datblygu hyd at 9 o gartrefi newydd yn safle hen Ysgol Babanod Copperworks, ar dir yn Nheras Morlan, Porth Tywyn SA16 0ND**<br><br>[SYLWER: Gan iddo ddatgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach, fe wnaeth y Cynghorydd J.D. James adael y cyfarfod cyn i'r cais gael ei ystyried a chyn y gwnaed penderfyniad yn ei gylch.] |

**4.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **S/34071** | **Canolfan prosesu gwastraff anadweithiol ar safle hen Lofa Morlais, Heol Pontarddulais, Llangennech, Llanelli, SA14 8YN**<br><br>**Y RHESWM:** Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weld y trefniadau mynediad yn sgil pryderon am ddiogelwch priffyrdd. |

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/35759** | **Un breswylfa ar wahân ar lain ger Rhodfa Bryneglur, Heol y Foel, Foelgastell, SA14 7ET** |

**5.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **W/35554** | **Sgwâr cyhoeddus newydd, caffi ac unedau busnes bach yn yr ardal gyhoeddus bresennol ar sgwâr Jacksons Lane, Caerfyrddin, SA31 1QD**<br><br>**Y RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar safle'r cais yn sgil pryderon am raddfa a maint y datblygiad arfaethedig.<br><br>Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio roedd y gwrthwynebwyr a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch yr eitem hon wedi dewis cyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod ar ôl yr ymweliad â'r safle. |

## 6. COFNODION

### 6.1. 13EG MEHEFIN, 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2017 gan eu bod yn gywir.**

### 6.2. 29AIN MEHEFIN, 2017

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2017 gan eu bod yn gywir.**

### 6.3. 11EG GORFFENNAF, 2017

**PENDERFYNWYD cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2017 gan eu bod yn gywir.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

*[Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar Agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw we-ddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.]*